



Adran Economi a Chymuned



Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2020/21:

Gwasanaeth Datblygu Economaidd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd.

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi i fusnesau dyfu, a sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae 16,010 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau Gwynedd i dendro'n llwyddiannus am waith a chadw'r budd yn lleol o gytundebau yn y sector cyhoeddus a phreifat, a hynny drwy gydweithio â Thîm Caffael Cyngor Gwynedd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.



8

o swyddi wedi eu creu gan fentrau yn derbyn cymorth 2018/19

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth busnes er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid.

Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

Blaenoriaeth Gwella I



Mae cael busnesau sy'n ffynnu yn cyfrannu'n sylweddol at greu cyflogaeth a llewyrch yn ein cymunedau. Ond mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Brexit a newid mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i her Brexit drwy:

- fod yn effro i lais busnesau a gwranddo'n well er mwyn deall eu hanghenion i'r dyfodol
- sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut allent gynnig cymorth i gefnogi busnesau
- lleisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid
- annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill.

Rydym eisoes wedi:

- cynnal arolwg o farn busnesau o'r holl wasanaethau maent yn ei dderbyn gan y Cyngor
- trafod oblygiadau Brexit gyda'r gymuned fusnes a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac eraill
- chwarae rhan ragweithiol yn y trafodaethau ynglŷn â dyfodol cymorth busnes yng ngogledd Cymru a dyfodol arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- ymateb i ganlyniadau ein harolwg o farn busnesau am wasanaethau'r Cyngor gan weithio yn benodol gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaeth a'r Adran Amgylchedd
- cyfrannu i ddatblygu'r rhwydwaith cefnogi busnes ar draws gogledd Cymru gan sicrhau ei fod yn addas i anghenion busnesau Gwynedd
- adolygu ein dulliau o ymgysylltu'n barhaus gyda busnesau a chyflwyno trefniadau newydd yng ngoleuni Brexit
- dylanwadu ar y trefniadau newydd ar gyfer arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella I



Mae diffyg twf yn wendid yn economi gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Mewn ymateb daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a llunio gweledigaeth ar gyfer twf yr economi.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Nhachwedd 2019 arwyddwyd cytundeb cychwynnol rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y gogledd. Mae Cyngor Gwynedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y Bwrdd Uchelgais er mwyn sicrhau fod anghenion y sir yn cael sylw a bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf.

Rydym eisoes wedi:

- sicrhau fod sawl cynllun fydd yng Ngwynedd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais gan gynnwys gwella argaeledd bandeang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon
- cytuno i fod yn awdurdod arweiniol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad y cynlluniau fydd yng Ngwynedd

- cyfrannu i ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sydd yn cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol
- dylanwadu ar Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru i sicrhau fod Gwynedd yn elwa o unrhyw arian datblygu economaidd a ddaw yn sgîl Brexit.

Creu Swyddi Gwerth Uwch (Cyflog £28,500 neu fwy)

Blaenoriaeth Gwella I



Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir yr isaf yng Nghymru yn 2019 (£459 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£423).

Mae cyflogau isel yn cyfrannu at y gyfradd uchel o dlodi ymhlith ein trigolion sy'n gweithio. Mae diffyg swyddi sy'n talu'n dda hefyd yn rheswm pam fod pobl ifanc yn gadael neu'n methu dychwelyd i'r sir sydd, yn ei dro, yn cael effaith ar ein cymunedau ac yn peryglu dyfodol yr iaith Gymraeg.

Bwriad y cynllun Creu Swyddi Gwerth Uwch ydi:

- annog a chefnogi busnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda megis ynni, digidol a chreadigol i sefydlu a thyfu yng Ngwynedd
- cefnogi trigolion Gwynedd i fagu y sgiliau i weithio yn y sectorau hyn ac mewn swyddi gwerth uwch sy'n cael eu creu gan fusnesau Gwynedd.

Rydym eisoes wedi:

- targedu arian oddi wrth yr Awdurdod Dadgomisiynnu Niwclear i gefnogi'r gwaith
- sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri
- sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sydd yn astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda
- sefydlu rhwydweithiau busnes yn y sectorau digidol a chreadigol i annog cydweithio
- cefnogi busnesau i sefydlu yng Ngwynedd.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi datblygu gofod ar gyfer 165 o swyddi yn y sector awyrofod ym maes awyr Llanbedr
- anelu i sicrhau parhad cyflogaeth ar safle cyn Atomfa Trawsfynydd gan gefnogi sefydlu endid priodol i sicrhau defnydd pellach o'r safle ar gyfer datblygiad ynni carbon isel i'r dyfodol ac arwain ar ddatblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru i baratoi'r safle ar gyfer buddsoddiad
- cefnogi datblygiad y diwydiannau creadigol a'r sector ddigidol yng Ngwynedd
- datblygu sgiliau ar gyfer swyddi gwerth uwch gan weithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a phrosiect STEM Gogledd yn benodol.

Arloesi Gwynedd Wledig

Blaenoriaeth Gwella 1



Mae heriau sylweddol yn parhau i wynebu'r economi yng Ngwynedd wledig; mae cyflogau yn arbennig o isel a dim ond un person sydd yn gweithio yn 79% o fusnesau. Mae ansicrwydd yn parhau i wynebu'r sector fwyd ac amaethyddiaeth oherwydd Brexit a chyfeiriad polisi Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru i'r dyfodol. Mae hyn yn bygwth cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig a chadarnleoedd y Gymraeg.

Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio er mwyn creu'r amodau i fusnesau addasu a chystadlu mewn ardaloedd gwledig trwy wella'r isadeiledd digidol, cefnogi busnesau i arloesi ac i gynyddu gwerth eu gweithgaredd a cheisio cadw mwy o gyfoeth yn ein hardaloedd gwledig drwy sbarduno'r economi sylfaenol.

Rydym eisoes wedi:

- sicrhau £4 miliwn o fuddsoddiad i'r cynllun Arloesi Gwynedd Wledig i annog a chefnogi arloesedd ymhlith cymunedau a busnesau gwledig
- gweithredu cynllun i gynyddu argaeledd offer cyfrifiadurol cyhoeddus yn ein cymunedau gwledig
- sicrhau arian i ymestyn peilot gynhaliwyd gan Arloesi Gwynedd Wledig a gofod darpariaeth wi-fi cyhoeddus yn 8 o brif drefi / pentrefi gwledig Gwynedd
- cychwyn gweithredu cynlluniau Gwynedd o fewn Rhaglen ARFOR i gefnogi creu gwaith o fewn cadarnleoedd y Gymraeg.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi buddsoddiad pellach i wella argaeledd bandeang cyflym mewn ardaloedd gwledig; i hyrwyddo'r defnydd o 'rhyngryd y pethe' a gwasanaeth ffôn symudol
- gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod
- cwblhau prosiectau rhaglen ARFOR yng Ngwynedd a pharatoi'r achos ar gyfer cydweithio pellach yn rhanbarth gorllewin Cymru i'r dyfodol
- dysgu mwy am yr economi sylfaenol yng Ngwynedd a sut gellir ei chefnogi ymhellach
- dylanwadu yn genedlaethol ar ran anghenion cymunedau gwledig yn sgil Brexit.

Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith

Blaenoriaeth Gwella 3



Mae nifer sylweddol o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus, ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau. Mae'r Cyngor felly'n awyddus i gefnogi pobl Gwynedd i ddod i mewn neu i aros yn y byd gwaith.

Rydym eisoes wedi bod yn:

- gweithredu Rhaglenni Cymunedau i Waith a Chymunedau i Waith a Mwy gan gyflogi tîm i ddarparu cymorth i drigolion sydd wedi eu heithrio o'r byd gwaith
- adolygu'r anghenion a'r cyfleoedd o fewn y farchnad lafur yn lleol i wneud yn siŵr ein bod yn annog pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt
- gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd
- cyflawni rhaglen i gefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith ac aros mewn gwaith gan eu cynghori ar sut i reoli arian er mwyn sefydlogi eu hamgylchiadau.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- sicrhau parhad y cynlluniau Cymunedau i Waith a Chymunedau i Waith a Mwy
- ymestyn ein dull o weithio gyda chyflogwyr i sectorau newydd gan gynnwys manwerthu ac arlwyo
- cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynad ein gwasanaethau
- diwygio ein darpariaeth i gefnogi trigolion i ddatblygu sgiliau digidol a rheolaeth ariannol
- ymestyn ein darpariaeth presennol i gefnogi trigolion sydd wedi dychwelyd i waith i gynyddu eu enillion.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Rydym yn helpu'r diwydiant i ddenu pobl drwy'r flwyddyn sy'n debygol o wario mwy yn lleol, megis ymwelwyr sy'n mwynhau'r awyr agored ac ymwelwyr sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant arbennig Gwynedd. Er

57,100

o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol Eryri,

Mynyddoedd a Môr yn 2018/19



mwyn cyflawni hyn yn fwy effeithlon rydym wedi ailddatblygu ein platfform marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddigidol ac yn cydweithio gyda phartneriaid i adnabod blaenoriaethau i gefnogi prif gyrchfannau twristiaeth Gwynedd a'r sector yn ehangach.

Rydym hefyd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i greu bwrlwm mewn cymunedau ar draws y sir. Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Trwy gynnal digwyddiadau mae modd codi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld ac yn leoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi. Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fudd economaidd o £5.47m i Wuned yn 2019/20.

Rydym yn awyddus i barhau â hyn yn 2020/21 a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir a chynyddu nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

Elwa o Dwristiaeth

Blaenoriaeth Gwella I



Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'n gyflogwr pwysig. Ond mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym eisoes wedi:

- sefydlu grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o'r sector dwristiaeth ar draws Gwynedd i adolygu ein trefniadau i reoli twristiaeth yng Ngwynedd
- comisiynu astudiaeth i edrych ar opsiynau denu incwm newydd i Wynedd er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y nifer o ymwelwyr
- cynnal 2 weithdy gyda Aelodau Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn cytuno ar gyfres o egwyddorion twristiaeth a blaenoriaethau i'r dyfodol.

Yn 2020/21 byddwn yn edrych i barhau i gydweithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'n partneriaid i greu Cynllun Rheoli Twristiaeth newydd i Wynedd fydd yn ystyried y ffordd orau o gael y budd mwyaf i'r diwydiant ac i drigolion Gwynedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio gwella cyfraniad y sector i gymunedau ac economi Gwynedd, gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a phobl Gwynedd.

Gwasanaethau Morwrol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r adran yn ceisio sicrhau **adnoddau diogel o ansawdd yn ein harbwr, ein marinas** ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 400 o gychod.



1,777 o gychod a **923** o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru yn ystod 2018/19

Yn 2020/21 byddwn yn:

- diweddarau Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Fictoria
- datblygu opsiynau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cyfuno i wneud Gwynedd yn le arbennig i fyw, gweithio a mentro. Ond mae rhai o'r cymunedau lle nad ydi grym y farchnad yn gryf angen hwb ar adegau er mwyn gwyrddroi dirywiad, ac er mwyn ymateb i heriau sy'n eu hwynebu cyn gallu cyflawni potensial i'r dyfodol. Adfywio ydi'r broses yma ac mae'n **ymdrech fwriadol i gydweithio gyda pobl Gwynedd a phartneriaid i wella ardaloedd** er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.

Nid oes modd i un adran gyflawni amcanion agenda Adfywio Gwynedd ar ei phen ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth hirdymor a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhaid cydweithio ar draws adrannau'r Cyngor a chydag amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Bwrdd Adfywio trawsadrannol wedi cael ei sefydlu ac yn ystod 2020/21 bydd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

Blaenoriaeth Gwella I



Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Mae cyfle yma i ni ddefnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi – hyrwyddo balchder yn ein treftadaeth, hyrwyddo uchelgais i'r dyfodol a chynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr.

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i UNESCO ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Rhoddwyd hefyd gynlluniau ar waith sydd wedi denu dros £1m o adnoddau ychwanegol i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

Yn ystod 2020-21 byddwn yn parhau i gydweithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid ar gynlluniau rheoli safle treftadaeth byd ac yn cydweithio gyda UNESCO er mwyn sicrhau'r statws i'r diwydiant llechi erbyn mis Gorffennaf 2021.

Trwy brosiect LleCHI, byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Hybu Canol Tref

Blaenoriaeth Gwella I



Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol at lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod ffynnu gan gynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Rydym eisoes wedi:

- datblygu fframwaith adfywio ar gyfer canol dinas Bangor fel sail i dargedu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru;
- cydweithio gyda busnesau yn ardal Caernarfon a Bangor i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) sydd wedi creu ardoll i'r busnesau wella'r profiad i'r ymwelydd;
- bod yn llwyddiannus yn targedu adnoddau Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardal Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes;
- bod yn cydweithio gyda phartneriaid yn Harlech er mwyn sefydlu fframwaith i adfywio canol y dref;
- hyrwyddo rhaglen parcio am ddim Cyngor Gwynedd dros gyfnod y Nadolig i annog mwy o siopa yn ein trefi lleol.

Byddwn yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naw Gymreig. Bydd cynlluniau yn cael eu paratoi ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i bobl Gwynedd wneud ein cymunedau yn lefydd gwell i fyw. **Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol.** Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.



65

o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/diogelu mynediad at wasanaeth yn ystod 2018/9

Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw arbennig i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- ail lansio gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar draws Gwynedd
- mesur maint a natur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol
- cyfrannu ar waith Bwrdd Adfywio'r Cyngor drwy arwain ar y gwaith o ymgysylltu gyda chymunedau i geisio adnabod blaenoriaethau lleol.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu menthyg llyfrau a llyfrau llafar, a lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau o'u dewis. Benthycwyd 491,745 o adnoddau gan bobl Gwynedd yn 2018-19. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu llyfrgell deithiol sy'n ymweld â 115 o arosfannau mewn trefi a phentrefi yn fisol, ac yn ymweld â 317 o unigolion sy'n derbyn Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob Ysgol Gynradd, Arbennig a Chanolfannau Iaith ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed.

37,060
o bobol Gwynedd yn
aelodau o Lyfrgell



Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na benthyc llyfrau. Maent yn lefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o weithgareddau – mynychu gweithgareddau fel sesiynau digidol, sesiynau ysgrifennu creadigol, sesiynau crefft neu grwpiau dysgwyr, sesiynau i fabanod neu amseroedd stori i blant, cael cymorth a mynediad at wybodaeth ar faterion megis iechyd a lles, chwilio am waith, neu wasanaethau lleol, yn ogystal â llungopio a sganio. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn dod i ddefnyddio un o'r 96 o gyfrifiaduron, neu'r wi-fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim.

Derbyniodd gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd adroddiad ardderchog ar ei berfformiad yn 2018-19, sy'n dangos fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda oddi mewn i Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- paratoi achos busnes am adnoddau i uwchraddio cyfleusterau Llyfrgell Pwllheli
- datblygu ac ehangu ein cynnig lechyd, Lles a Dysgu i oedolion yn ein llyfrgelloedd
- gwreiddio trefniadau hunan wasanaeth newydd ymhob llyfrgell ar draws y sir
- parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth newydd
- ystyried rôl llyfrgelloedd o fewn cymunedau ar gyfer y dyfodol.

Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i **warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr fod gan bobl fynediad atynt.** Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.



28,478
wedi defnyddio'r Gwasanaeth
Archifau yn 2018/19

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd, gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu

sesiynau blasu, a chysiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth
- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth
- gweithio gyda'r Adran Addysg i drafod cynnal y Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd i'r dyfodol
- adnabod cost digido'r casgliadau

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiell ym Mangor ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu **prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd**. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi rhaglenni celfyddydol amrywiol er mwyn sicrhau fod y celfyddydau'n fyw yn ein cymunedau a bod mynediad at y celfyddydau yn ein hardaloedd gwledig.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- sicrhau llwyddiant cynllun Storiell a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau
- cefnogi Ysgol Godre'r Berwyn i sefydlu cyfleusterau celfyddydol cymunedol newydd
- datblygu cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau Neuadd Dwyfor ac adnabod modelau darparu cynaliadwy i'r dyfodol.

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.



Mae gan Cyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egniol mewn lleoliadau diogel.



82%

o blant yn
gallu nofio yn
11 oed yn
2018/19

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cyfleusterau hyn ac wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach Cyf. er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Mae'r adran wedi gosod cytundeb i'r Cwmni i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a byddwn yn

monitro'r cytundeb yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn. Mae'r parciau hyn yn safleoedd treftadaeth pwysig ac yn atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Ond mae'r parciau hefyd yn asedau gwerthfawr i wella llesiant trigolion Gwynedd a hyrwyddo byw'n iach. Bydd yr adran yn ceisio sicrhau mwy o fudd lleol i'r cymunedau o'r asedau hyn.

Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod rhaglen o weithgareddau egniol cynhwysol ar gael i bobl ifanc drwy'r tîm Chwaraeon am Oes mewn canolfannau, ysgolion, clybiau ac yn



49%

o blant yn cymryd
rhan mewn
chwaraeon 3
gwaith yr wythnos

y gymuned. Mae rhaglen o weithgareddau Cyfeirio i Ymarfer hefyd ar gael yng Ngwynedd i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Darperir y 2 raglen yma yng Ngwynedd drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi Cwmni Byw'n Iach i reoli canolfannau hamdden ar draws Gwynedd
- sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden
- cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth Chwaraeon am Oes ar draws gogledd Cymru a sefydlu gwasanaeth datblygu chwaraeon newydd ar y cyd â Chwmni Byw'n Iach yng Ngwynedd
- cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau cynhwysol sy'n ymateb i'r galw yng Ngwynedd a'r cyfleoedd arbennig sydd ar gael yn y sir drwy ein hadnoddau naturiol
- cydweithio gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth Cyfeirio i Ymarfer ar ran y Cyngor i'r dyfodol
- datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Mae blaenoriaethau lleol wedi cael eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ers 2018/19 gan ymateb i'r anghenion oedd wedi eu codi gan Gynghorwyr lleol. Mae'r adran wedi defnyddio'r blaenoriaethau hyn wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith ehangach, ac felly mae nifer o'r anghenion yn cael eu cyfarch drwy waith sydd eisoes wedi ei ddisgrifio yn y Cynllun Adran hwn.

Isod rydym yn rhestru'r blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r rhaglen neu brosiect sydd wedi ei chynllunio er mwyn ymateb i'r angen lleol a sirol hwnnw.

Blaenoriaethau Lleol	Rhaglen
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu aildddefnyddio'r safleoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddi Gwerth Uchel • Hybu Canol Tref
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy'r ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru • Arloesi Gwynedd Wledig
<p>Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Canol Tref
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Canol Tref
<p>Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith, a nodir uchod. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith
<p>Yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg y cynghorwyr lleol pan gynhaliwyd sesiwn ymgynghori â hwy ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno, a gwnaeth y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gyni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.